



CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Prawf Cyfieithu ar y Pryd 19 Medi 2014 Adroddiad Cyffredinol

YR YMGEISWYR

Cafwyd 6 ymgeisydd y tro hwn; 4 yng Nghaerdydd a 2 yn y Groeslon.

Y dyfarniad oedd bod 2 ymgeisydd yn llwyddo a 4 yn methu.

Y DARNAU PRAWF

Yn unol â'r arfer, dewiswyd dau ddarn gwrthgyferbyniol.

Darn 1: Sesiwn graffu gyffredinol Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru lle roedd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg yn ateb cwestiynau ar yr Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol a'r adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd' a ddeilliodd o hynny.

Darn 2: Darn o'r rhaglen gelfyddydol *Pethe*, lle roedd John Gower yn dychwelyd i Lanelli, tref ei febyd, ar ôl 30 mlynedd ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol 2014, gan olrhain hanes y dref ddiwydiannol gyda hanesydd lleol a dau o awduron yr ardal.

Roedd y ddau asesydd o'r farn bod y darnau'n rhai heriol ond teg – y naill yn ffurfiol yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o faterion cyfoes a'r llall yn llawer mwy anffurfiol yn gofyn am eirfa a gwybodaeth ehangach. O ran cyflymder, roedd y cyntaf yn bwyllog ac yn cynnig digon o seibiau ond roedd yr ail dipyn yn gynt gyda nifer o siaradwyr a oedd yn gofyn am y gallu i gyflwyno llawer iawn o wybodaeth mewn amser byr.

Y SAFON

Yn yr un modd â'r prawf diwethaf, nid oedd y safon y tro hwnystal â'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac roedd bwlch mawr rhwng yr ymgeiswyr cryfaf a'r ymgeiswyr gwannaf.

Geirfa

Llwyddodd y goreuon i greu cyfieithiadau graenus a chywir, gan ddefnyddio geirfa gyffredinol a thechnegol yn rhwydd ac yn llyfn yn yr iaith darged e.e. *mental health; body of evidence; belittled; dialect; conflict; masterpiece; first point of contact; bustling; quality of life*. Roedd eraill, fodd bynnag, yn ymbalfalu am rai geiriau sylfaenol ac o ganlyniad yn colli rhediad ac ystyr. Cafwyd enghreifftiau o ddefnyddio geiriau anaddas ac/neu anghywir: *life condition* (ansawdd bywyd); *storiwr* (storiwr); *lovely* (tirion); *the pool* (y pwll glo); *full of coming and going* (llawn sŵn); *confirmation* (cydymffurfiaeth).

Cystrawen ac Idiom

Roedd y goreuon yn cyfieithu mewn brawddegau llawn gan ddefnyddio Saesneg rhywiog a naturiol gydag ymadroddion megis: *the important starting point for us; it was*

a near miss; draws on his experiences; make ends meet; to keep the wolf from the door; dreadful and dramatic events; sweet without being sentimental.

Fodd bynnag, cystrawennu lletchwith, annaturioli ac anidiomatig oedd prif wendid yr ymgeiswyr aflwyddiannus a chlywyd cyfieithu llythrennol megis: *doing that decision; it was told to us and it was told to me; to see the people of Llanelli and their noises; the most saddest events; she was a completely Welsh town; kneeling house they meant; the subject that he pulled on; Klondike it was called locally; that could raise the town; he died in the place.*

Deall, Dehongli a Chywirdeb

Ymhlyg yn y darnau roedd yna rannau a oedd yn gofyn am sgiliau deall a dehongli da. Llwyddodd y goreuon i gyfleu'r ystyr yn gelfydd ac i oresgyn unrhyw anawsterau.

Yn y darn cyntaf, y prif faen tramgwydd oedd y cyfeiriad at North Staffs gyda nifer yn ei gamdehongli fel 'staff', gan ddangos diffyg ymwybyddiaeth o faterion cyfoes.

Roedd yr ail ddarn prawf yn fwy heriol ac wedi peri rhai problemau i bob ymgeisydd, yn arbennig ar y dechrau lle y methodd sawl un ag enwi Eddie Ladd a Dyled Eileen ac esbonio'r cyswllt â'r awdur John Gower. Yn ddiweddarach yn ystod y drafodaeth ar Gymreigio geiriau Saesneg aeth rhai i drafferthion wrth geisio cyfleu'r ystyr gan fethu â rhestru geiriau megis 'rowldo', 'behindo', 'kneelo'.

Yr her fwyaf yn yr ail ddarn oedd y drafodaeth am nofel Alun Gibbard *Talcen Caled*, sy'n seiliedig ar streic y glowyr. Llwyddodd y goreuon i gyfleu'r tensiwn a'r gwrthdaro yn gryno gan ddefnyddio geiriau megis *conflict, tension, difficulties to make both ends meet* ond methodd y gwannaf gan hepgor rhannau o frawddegau a methu'n llwyr â dod o hyd i ffordd o gyfieithu 'talcen caled'.

Roedd rhai yn tueddu i fwrw ati i gyfieithu'n rhy gynnar, a oedd yn arwain at ymadroddi trwsogl a cholli ystyr, a byddai pwylllo ychydig wedi arwain at ddehongliad mwy cywir a phrofiad gwell i'r gwrandawyr.

Arddull

At ei gilydd, roedd stamina'r chwe ymgeisydd yn gymharol dda, gyda phawb yn llwyddo i ddal ati hyd y diwedd. Cafwyd enghreifftiau da o amrywio tŷn y llais a phwyslais priodol i efelychu'r gwreiddiol, ond roedd ambell enghraifft o gyfieithu a oedd yn rhy dawel heb unrhyw ymgais i wahaniaethu rhwng siaradwyr gwahanol. O bosibl fod hyn yn adlewyrchu diffyg profiad yn y maes.

GAIR O DDIOLCH

Hoffwn ddiolch i'r aseswyr am eu gwaith manwl a thrylwyr ac i staff y swyddfa am eu cymorth a'u harweiniad.